

# Cymru'n Gweithio

#newiddystori

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cymorth ar ôl Colli Swydd

Os wyt ti wedi colli dy swydd, gall Cymru'n Gweithio ddarparu cyngor arbenigol am ddim a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael i dy helpu i symud ymlaen yn hyderus.

**Gallwn weithio gyda ti i:**

- Ddeall a rheoli dy emosiynau.
- Asesu dy opsiynau.
- Nodi dy sgiliau trosglwyddadwy.
- Dy helpu i ddysgu sgiliau newydd drwy ddod o hyd i gyrsiau a hyfforddiant ac os bydd angen, dy helpu i chwilio am gymorth ariannol.
- Chwilio am swyddi a chyfateb dy sgiliau â swyddi gwag presennol.
- Dy gynorthwyo drwy'r broses o wneud cais a chyfweliad er mwyn dy helpu iddod o hyd i swydd newydd a'i chael.

## *ReAct – Cymorth ariannol

Efallai fod gennyt hawl i gael cyllid ar gyfer hyfforddiant drwy ReAct, er mwyn i ti allu gwella a chynyddu dy sgiliau a dy siawns o gael swydd newydd.

**Drwy ReAct, gall ymgeiswyr cymwys gael:**

- **Hyd at £1,500 Grant Hyfforddiant Galwedigaethol**.
  Gellir defnyddio hwn tuag at gostau hyfforddi er mwyn eich helpu i gael swydd newydd.
- **Hyd at £200** mewn **Grant Cymorth Ychwanegol**.
  Help gyda chostau teithio, llety, gofal plant a chyfarpar arbenigol angenrheidiol yw hwn.

*Pan fydd di'n cael cynnig swydd, gall dy gyflogwr newydd cael cyllid hefyd. Gall cyflogwyr cymwys gael mynediad at elfen Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr y rhaglen ReAct a chael hyd at £3000 am eich cyflogi a hyd at £1000 tuag at gostau hyfforddi.*

*Ariennir ReAct yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ac i wirio eich cymhwyster ar gyfer ReAct, ffonia Cymru'n Gweithio AM DDIM ar **0800 028 4844** neu cer i **cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwnni-helpu/cymorth-ar-ol-colli-swydd**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**